Fy nhro i oedd dod â choffi ar gyfer paned yn y gwaith.  Picio i'r archfarchnad wnes i a dyna benbleth! Yn lle rhuthro am y math arferol dechreuais i edrych o ddifri a sylwi ar y logo Masnach Deg.  Maen nhw'n dweud wrtha' i bod pobl y Deyrnas Unedig yn gwario £1.3 biliwn ar nwyddau Masnach Deg erbyn hyn.  Mae'r cynllun yn cael ei weithredu ers 18 mlynedd ac mae mwy na 4,500 o wahanol gynnyrch yn ein siopau ond ydy Masnach Deg yn deg go iawn?

Bwriad syml oedd i'r cynllun – sicrhau bod ffermwyr mewn gwledydd tlawd yn cael prisiau uwch am eu cynnyrch, cael amodau gwaith teg, datblygu cynaliadwyedd a thegwch i ffermwyr a gweithwyr mewn gwledydd sy'n datblygu.  Mae'r ffermwyr, ar ôl talu am ymuno â'r cynllun, yn siŵr o gael isafswm pris am eu cynnyrch, pris na all syrthio'n is na phris y farchnad.  Maen nhw hefyd yn cael swm i'w fuddsoddi yn eu cymuned.  Mae cefnogwyr y system yn gallu rhoi enghreifftiau lu o sut mae hyn yn dod â budd i unigolion.  Un enghraifft yw Tomy Mathew sy'n ffermwr cnau a sbeisys yn Kerala yn India.  Ar gyfnod gwael mewn ffermio yn India, rhwng 1992 a 2006 roedd pris cnau cashew yn 62 rupees y cilo, sy'n cyfateb i 71 ceiniog, ond oherwydd cymorthdal gan Fasnach Deg roedd yn debyn 75 rupees, sy'n cyfateb i 86 ceiniog. Roedd hi'n werth talu'r 3,000 doler y flwyddyn roedd y gymuned yn ei dalu i ymuno â'r cynllun.  Gallant ddefnyddio'r cymorthdal i brynu peiriannau fel tractor, sy'n arwain at wella cynhyrchiant.  Mae'n swnio'n ddelfrydol tydy?

Ond dydy pawb ddim yn cytuno!  Mae rhai economegwyr yn dadlau y gallai ffermwyr gael prisiau gwell o fod yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol neu drwy gynhyrchu cynnyrch o safon uwch.  Mae nwyddau Masnach Deg fel arfer yn costio mwy, ac mae'r mudiad ei hun yn cyfaddef mai 50% o'r arian ychwanegol hwnnw, ar y mwyaf, sy'n cael ei wario ar gynlluniau cymunedol, ac mae rhai beirniaid yn dadlau bod y ffigwr yn nes at ddim!  Ni welwyd unrhyw ffigyrau cadarn sy'n profi bod ffermwyr yn cael prisiau gwell dan gynllun Masnach Deg.  Dim pob ffermwr sy'n gallu ymuno â'r cynllun.  Os yw'r ffermwyr yn hynod o dlawd neu'n byw mewn rhannau pellennig allan nhw ddim ymuno â'r cynllun, na thalu'r tâl i ymuno. Mae rhai yn dadlau bod y cynllun yn gwneud mwy o ddrwg i ffermwyr gwirioneddol dlawd.  Hyd yn oed os ydy ffermwyr y cynllun yn cael ychydig geiniogau'n fwy am eu cynnyrch, maen nhw'n dal yn gorfod gweithio'n galed a dydy'r cymorth ddim yn ddigon i'w codi o'u tlodi'n aml. Pe baent yn gorfod cymryd cyfrifoldeb dros safon eu cynnyrch eu hunain mae rhai'n dadlau y byddai ganddynt well syniad sut i wella a chael mwy o arian amdano.

Wnes i erioed feddwl bod prynu coffi yn mynd i achosi cymaint o gur pen!  Mae bywyd yn rhy fyr i yfed coffi sâl ond eto mae'r cydwybod yn pigo.  Beth wnes i yn y diwedd?  Er yr amheuon sy'n cael eu codi, rhaid i mi gyfaddef mai'r logo glas a gwyrdd enillodd yn y pen draw.  Fy nadl i ydy ei bod yn well gwneud rhywbeth na dim o gwbl!

Pa fath o destun a pha ffurf yw'r darn hwn?  Pam?

Pa fath o iaith a ddefnyddir? Chwiliwch am enghreifftiau.

Pa dechnegau sy'n cael eu defnyddio i gefnogi'r dadleuon ar y ddwy ochr?

Chwiliwch am y cysyllteiriau a ddefnyddir yn y paragraff hwn ac ystyriwch beth yw eu heffaith.

O dan bwyntiau bwled crynhowch y dadleuon sy'n cael eu defnyddio yma o blaid Masnach Deg a'r dadleuon yn erbyn.

Ailysgrifennwch gasgliad a fyddai'n cyflwyno'r safbwynt arall.

Pa sylw yn y paragraff olaf sy'n awgrymu rhagfarn?

TRAFOD